
# papur priordy



**Holl angen dyn, tydi a'i gŵyr,**
**d'Efengyl a'i diwalla'n llwyr;**
**nid digon popeth hebot ti:**
**bara ein bywyd, cynnal ni.**

*Tudor Davies*
*Caneuon Ffydd: 816*

*Gweler y nodyn dan tudalen blaen y tu mewn*

**Rhifyn 370**
**PAPUR HYDREF 2023**

# Gair bach gan ein Gweinidog

## Y person 'cyfan'

***RWY'N*** 'sgrifennu'r geiriau hyn o Lanberis!  Rwyf wedi bod yn cerdded drwy fis Medi i gefnogi Dementia UK ac wedi cyrraedd copa'r Wyddfa



heddi. Rwy'n siŵr y bydd fy nghoesau'n f'atgoffa o'r daith am sawl diwrnod!

Mae Dementia UK yn ariannu nyrsys Admiral, sef nyrsys sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig yn y maes.

Clywsoch sôn eisioes ym Mhapur Priordy am y llawlyfr gwych sydd wedi'i gynhyrchu gan Adran Ddinasyddiaeth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, sef *'Heulwen dan gymylau'* sy'n annog eglwysi i fod yn ddementia gyfeillgar.



Mae eglwysi'r Ofalaeth hon eisioes wedi cychwyn ar y broses o wirio eu hadeiladau a gwneud mân newidiadau i wneud ein capeli'n ddementia gyfeillgar. Mae tai bach Capel y Priordy wedi eu haddasu gyda seddau lliw coch newydd ar bob un ac rwy'n siŵr eich bod wedi sylwi ar yr arwyddion newydd sydd yn y tri chapel a'r tair festri. Diolch i Gwynfor Davies am eu cynhyrchu.

Mae wedi bod yn arfer gennym fel gofalaeth ers nifer o flynyddoedd i gynnal oedfaon mewn cartrefi preswyl yr ardal ac mewn unedau dementia. Da gwybod y bydd Ysgol Sul y Priordy yn ymweld â Chartref Gofal Erw hir yn ystod mis Hydref ac mae gwahoddiad i bawb ddod i Gartref Plas-y-dderwen ar gyfer ein Gwasanaeth Cynhaeaf yn ddiweddarach yn y mis.

Ond prynhawn Iau, 21 Medi cawsom awr hynod o lawen a bendithiol yn festri Cana. Arbrawf oedd hwn fel rhan o ymgyrch dementia gyfeillgar Eglwysi'r Ofalaeth i wahodd trigolion o'r cartrefi gofal lleol atom ni. Ymunodd nifer o'n haelodau am awr o sgwrsio a chanu emynau dros baned o de a chacen yng nghwmni rhai o drigolion Plas-y-dderwen (a ddaeth i Gana yn gyffro i gyd ar y bws mini!) a chyfeillion

o Ddôl-y-felin (ac yn eu plith, ein Ann Griffiths ni). I gyfeiliant Mai Thomas ar y piano buom yn morio canu, yn clapio ac yn chwerthin tra bo gwragedd Cana'n gwneud yn siŵr bod ein cwpanau te a'n platiau'n cael eu llenwi'n gyson!  Prynhawn hynod o fendithiol yn wir.

Da o beth yw gwneud addasiadau ymarferol yn ein capeli ond mae croesawu pobl sydd â dementia'n golygu llawer mwy na chymryd camau ymarferol yn unig. Mae hefyd yn golygu annog hunaniaeth y person 'cyfan', gan gynnwys yr 'ysbrydol' yn ogystal â'r 'corfforol'.



Ein galwad yw darparu'r ymdeimlad o bwrpas i'r sawl sy'n byw gyda dementia a rhoi sicrwydd iddynt, hyd yn oed os byddan nhw wedi anghofio, na fydd Duw byth yn eu hanghofio nhw.

***DO***, fe ddes i lawr o ben yr Wyddfa!  Dw i ddim yn derbyn nawdd am y daith gan ein bod wedi rhoi cyfraniad fel teulu i Dementia UK er cof am fam a mam-gu arbennig a fyddai wedi dathlu'i phen-blwydd y mis hwn. Bu inni dderbyn cefnogaeth amrhisiadwy oddi wrth nyrs Admiral ar un adeg. Aeth y cyfnod hwnnw heibio ac mae bywyd bellach wedi mynd yn ei flaen ond ni ddylai'r un ohonom fyth anghofio'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan eraill ar awr dywyll.

**Gweddïwn**

Gweddïwn y bydd yr eglwys yn effro i'w chyfrifoldebau i ofalu am y rhai sy'n byw gyda dementia. I geisio cynnig cefnogaeth ymarferol i ofalwyr yn ogystal â chefnogaeth ysbrydol ystyrlon. I fod yn wneuthurwyr Dy Air ac nid yn wrandawyr yn unig – fel y bo pob aelod yn cael ei werthfawrogi, ei gefnogi a'i anrhydeddu.



***Eglwys Bresbyteraidd Cymru***

**Amen**

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

# DARLLENIADUR

| Mis Hydref | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Philipiaid 1:1-13 |
| Wythnos 2 | Philipiaid 3:4b-14 |
| Wythnos 3 | Philipiaid 4:1-9 |
| Wythnos 4 | 1 Thesaloniaid 1:1-10 |
| Wythnos 5 | 1 Thesaloniaid 1:11-18 |

**DIOLCH YN FAWR**

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**DYDD GWEDDI'R BYD**

**GWYNN AC ANN BOWYER**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**GWASANAETH CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Gwener – 20 Hydref 2023**
**2 o'r gloch**
***gyda'n***
**Gweinidog**
**Croeso i bawb**







**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**

**Papur Priordy yn …..**

***DOD I NABOD PREGETHWR EIN GŴYL DDIOLCHGARWCH***

**Y PARCHEDIG TECWYN IFAN**




**PP: Cawsoch eich geni yng Nglanaman yn fab y Mans i Rhuana a'r Parchedig Vincent Evans, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn Ystalyfera ar y pryd. Fe symudoch chi fel teulu o Gwm Tawe i Ddyffryn Taf ac roeddech chi a'ch brawd Euros Rhys yn aelodau gwreiddiol o'r grŵp Perlau Tâf a ffurfiwyd ym 1968 gan John Arfon Jones, athro Mathemateg yn Ysgol Ramadeg Hendy-gwyn ar Daf. Sut atgofion sydd gennych am y dyddiau hyn?**

**TI:** *Roedd hi'n amser digon cyffrous, yn enwedig yn gerddorol ac yn wleidyddol. Roedd y chwyldro ym maes canu pop yn Lloegr yn cael ei efelychu yng Nghymru gyda nifer o grwpiau pop Cymraeg yn cael eu sefydlu. Ac yn sgil buddugoliaeth Gwynfor Evans yn ennill sedd Caerfyrddin i Blaid Cymru yn 1966, a thwf Cymdeithas yr iaith, neges wladgarol oedd gan y rhelyw o'r grwpiau yma, gan gynnwys Perlau Taf. Yn sgil Perlau Taf cefais y cyfle i berfformio ar lwyfan ac i arbrofi gyda chyfansoddi ambell i gân, rhywbeth rwy'n ddiolchgar iawn amdano.*




***PP: Wedi cyfnod byr yn gweithio mewn banc, daethoch yn fyfyriwr yng Ngholeg y Bedyddwyr ym Mangor. Cyfnod cyffrous yn gerddorol hefyd, dybiwn i, gan i chi sefydlu'r grŵp Ac Eraill.***

**TI:** *Tarddodd nifer o ganeuon Ac Eraill o brotestiadau Cymdeithas yr Iaith. Myfyrwyr oedd mwyafrif y protestwyr, ac aeth criw o fyfyrwyr Bangor i Gaerfyrddin rywdro yn 1971 lle roedd rhai o aelodau'r Gymdeithas o flaen y llys. Dydd Gwener oedd hi, ac o ganlyniad i dorri ar draws y llys anfonwyd tua 50 ohonom i garchar Caerdydd dros y penwythos gan gynnwys 4 myfyriwr o goleg y Bedyddwyr. Dim ond 6 oedd yn y coleg i gyd! Er bod rhai o awdurdodau'r coleg, yn ogystal â ffyddloniaid rhai o'r eglwysi yn anfodlon ar ein hymddygiad, roedd yr Athro, Y Parchedig D. Eirwyn Morgan yn llwyr o'n plaid. Ymddangosodd ysgrif goffa i D. Eirwyn Morgan gan y Parchedig Densil Morgan a oedd yn gyd-fyfyriwr i mi, yn rhifyn Mehefin eleni o Barn. Yno mae'n tystio i'r 'Arwr Angof', "un o'r dewraf o'n cymwynaswyr". Iddo ef yn bennaf y mae'r diolch am i mi gael mynd i Goleg y Bedyddwyr yn y lle cyntaf, ac am gael aros yno nes cwblhau fy nghwrs!*




**PP:Fe glywn atgofion yn aml yma'n lleol am yr opera roc *Nia Ben Aur* a lwyfanwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin ym 1974. Fe chwaraeoch chi ran bwysig yn y gwaith cyfansoddi, ond do?**



**TI:** *Sulwyn Thomas gafodd y syniad yna i ddechrau. Roedd Ac Eraill wedi perfformio'r gân unigol yn Eisteddfod Genedlaethol Rhuthun yn 1973, cân yn seiliedig ar gerdd 'Tir na n'Og' gan T. Gwynn Jones o hen chwedl Wyddelig. Awgrymodd Sulwyn y byddai'n bosib creu sioe o'r chwedl ar gyfer Eisteddfod Caerfyrddin, ac arweiniodd hynny at ddwyn nifer o grwpiau ac unigolion o'r byd canu Cymraeg at ei gilydd i greu'r opera roc.*

**PP: Fe ddechreuoch chi ganu wrth eich hunan ym 1975 ac, ym marn llawer, eich campwaith yw'r gân Y Dref Wen. Beth ysgogodd y gân arbennig hon?**

**TI**: *Fis Ebrill y flwyddyn nesaf bydd hi'n 50 mlynedd ers perfformio 'Heledd' gan Emyr Llywelyn yn Ysgol Basg Mudad Adfer yn Theatr Felin-fach. Drama gerdd oedd 'Heledd' yn seiliedig ar gerddi 'Canu Heledd' o tua'r 9fed. ganrif, sy'n adrodd am chwalfa'r Dref Wen, Llys Tywysogion Powys gan Dywysogion y Mers. Un o ganeuon y sioe hon oedd y Dref Wen. Heledd, yr unig aelod o'r teulu i oroesi'r chwalfa sy'n canu'r gân, lle mae'n mynd ar ofyn ei phobl i'w helpu i ailgodi'r hen gartref. Roedd yna deimlad yn y 1970au bod galwad Heledd, 'Pwy a saif gyda ni?' yn alwad amserol yn wyneb y mewnlifiad oedd yn bygwth y bröydd Cymraeg ar y pryd. Mae'r alwad honno mor berthnasol nawr ag erioed.*




**PP:Rych chi'n gyfansoddwr toreithiog ac mae gennych doreth o albymau a chaneuon hynod lwyddiannus a phoblogaidd – gormod i'w henwi yn wir. Yn ôl un sylwebydd, mae'ch caneuon yn estyniad o'ch gwaith yn y pulpud am eu bod bob amser yn ceisio cyfleu neges.**

**TI***:* *Rwy'n credu mai un o'r pethau cyntaf i mi ei sylweddoli wrth ddechrau canu gyda'r gitâr oedd mor effeithiol oedd cân fel cyfrwng i gyfleu neges. Does neb yn fwy o feistr ar y cyfrwng hwnnw yn Gymraeg na Dafydd Iwan. Ac o dan ei ddylanwad ef, yn ogystal â rhai fel Joan Baez, Bob Dylan a Pete Seeger, fe welais innau gyfle i gyfleu negeseuon ar themâu heddwch a chyfiawnder yn fy nghaneuon.*

**PP:Mae'ch priod, Rhiannon, yn hanu o deulu cerddorol ac yn arbenigwraig mewn cerdd dant. Y cymar delfrydol felly!!**

**TI:** *Mi ddysgodd i mi ganu Cerdd Dant pan o'n i'n aelod o gôr Carnabwth yn y 90au - a'r Ŵyl Gerdd Dant yn Hendy-gwyn ar Daf. Ac yn sgil cerdd dant rwy wedi dod i werthfawrogi clywed tinc y gynghanedd ar gân.*



**PP:Rych chi wedi treulio blynyddoedd maith yn y weinidogaeth yng Ngorllewin Cymru a Cheredigion a chyfnod fel swyddog**


**gyda Menter Iaith Sir Benfro gan gylpysu hyn â gweinidogaeth ran amser. Yna yn 2007, dyma ddychwelyd i'r weinidogaeth lawn amser gan dderbyn swydd gyda'r Bedyddwyr fel Ysgogydd Gweinidogaeth a Chenhadaeth Cymanfa Dinbych, Fflint a Meirion. O fwrw golwg dros yr amseroedd, tybed pa agweddau ar y weinidogaeth sydd wedi rhoi'r pleser mwyaf i chi a pha rai, o bosib, sydd wedi'ch digalonni?**

**TI:** *Roedd gweithio gydag ieuenctid yr eglwysi yn Hendy-gwyn, Login a Chwmfelin ar gyflwyniadau achlysurol yn rhoi pleser mawr i mi. Roedd y rhyddid i weithio y tu allan i gyfyngiadau'r weinidogaeth draddodiadol yn awyr iach. Cefais brofi'r un rhyddid gyda Chymanfa Dinbych, Fflint a Meirion i weithio yn y gymuned ym Mlaenau Ffestiniog heb ofal eglwys am 5 mlynedd cyn ymddeol. Dechrau trwy greu cyswllt a chefnogi gwaith mudiadau a sefydliadau fel y Banc Bwyd, Gwasanaethau Trais yn y Cartref a chwmni'r Dref Werdd, a thrwy hynny ddod i gyswllt â phobl na faswn i fyth wedi eu cyfarfod fel arall.*

**PP: Rych chi'n byw yn Llanddoged yn Nyffryn Conwy ac yn dal i gyfansoddi a theithio gryn dipyn o gwmpas Cymru. Mae'n siŵr bod oriau hamdden i'w cael, serch hynny. Beth wnewch chi i ymlacio a mwynhau?**

**TI:** *Rwy'n mwynhau cwmni fy wyrion a'm hwyresau, Branwen, Gwern, Lliwen, Mirain, Nyfain, Brychan, Gwenlli a Meilyr – pump yn y De a thri yn y Gogledd! Maen nhw'n werth y byd ac yn fy nghadw'n brysur pan ddewn ni at ein gilydd. Fel arall, mae potsian gyda choedyn neu ddau yn y sied ym mhen draw'r ardd yn sŵn Radio 3 yn ddihangfa fendithiol.*

**PP:Ac un cwestiwn arall i gloi, os gwelwch yn dda. A allwch chi gynnig gair o galondid i ni Gristnogion yng Nghymru yn ail ddegawd yr unfed ganrif ar hugain?**



**TI**: *Dywed Leonard Cohen yn ei gân 'Anthem', "There is a crack, a crack in everything, That's how the light gets in ..". A dyna'r gobaith rwy'n ei deimlo wrth i'r gyfundrefn grefyddol grebachu, fel sydd yn digwydd yn hanes Bedyddwyr Dinbych Fflint a Meirion fel ym mannau eraill yng Nghymru, sef y daw o'r chwalfa yna oleuni o fannau annisgwyl i ddangos rhyw ffordd ymlaen. A chân arall, un*

*rwy'n cael y fraint o'i chanu yw 'Gweithred Gobaith' gan Mererid Hopwood. Dweud y mae bod gobeithio y daw pethau'n well arnom ni ddim yn ddigon, a bod yn rhaid i ni roi ein gobeithion ar waith ein hunain, ohewydd meddai "gweithred yw gobaith". Fyddai rhyw gyfuniad o'r ddeubeth yna falle yn rhyw galondid i ni tybed?*






***Diolch yn fawr i chi am ateb y cwestiynau ac edrychwn ymlaen at eich cwmni. Mae'n bleser pellach gan fod un o'ch plant, sef Gruffudd a Gwenan, ei briod, yn addoli gyda ni a'r gefeilliaid Lliwen Fflur a Gwern Ceian a'r tripledi Brychan Rheon, Gwenlli Marged a Nyfain Alaw yn aelodau yn ein Hysgol Sul. Croeso cynnes i chi.***



**Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth**

**Dydd Sul 15 Hydref 2023**

**Tafarn y New Cross, Dryslwyn**

**12.30 (yn brydlon) ar gyfer bwyta am 1.00**

**Pris Oedolion: £15**

**Plant £7**

**Enwau ar y daflen yng nghyntedd y capel**



***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS Y PRIORDY***

***Croeso i chi gyfrannu***

***Y cyfan yn mynd at achoson da***

# CWRDD PLANT CYNTA'R TYMOR NEWYDD













**Meleri Llwyd O'Leary…**



**Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc**
***Bore Sul 3 Medi 2023***

***A HITHAU'N*** ddechrau tymor newydd yng nghalendr y Priordy hyfryd oedd cael croesawu ein plant a phobl ifanc nôl i'r Eglwys ar ôl gwyliau'r haf. Fe ddechreuwyd y gwasanaeth gyda gweddi agoriadol a chroeso twymgalon gan Beti-Wyn yn nodi mor hyfryd oedd hi i weld y to iau ar ôl toriad o chwe wythnos. Yna fe ganodd y gynulleidfa ddau emyn byr ar ei heistedd, sef 'Abba fe'th addolwn..' (rhif 53) ac 'Agor ein llygaid..' (rhif 425) cyn cydadrodd Salm 98 'Canwch gân newydd i'r Arglwydd'.

Yn dilyn hyn daeth Myfi i'r pulpud i gyhoeddi'r emyn nesaf sef 'Y Mae i'n Waredwr' (rhif 416) ac fe gafwyd y cyhoeddiadau a'r casgliad. Diolch i Miriam a Greta (gyda help Cadi) a Hedd, Cadi Wyn, Alys, Mali ac Ilan am gasglu.

Yn nesaf daeth Greta a Martha Nel i gyhoeddi emyn rhif 401 'Mae nghalon mor llon' ac wedi'r emyn daeth Ifan a Cadi i'r pulpud i ddweud ychydig wrthon ni am bysgod. Pethau digon drewllyd yw pysgod ond maen nhw'n fwyd blasus iawn yn enwedig gyda sglodion o'r siop leol! Mae pobl wedi bod yn bwyta bwyd o'r môr ers canrifoedd ac mae llawer o sôn yn y Beibl am bysgod ac am bysgota. Cofiwn ddysgu yn yr Ysgol Sul am Seimon Pedr a'i frawd Andreas yn bysgotwyr. Yn wir, roedd chwech o ddisgyblion Iesu yn bysgotwyr.



Yn dilyn y cyflwyniad cafwyd ffilm fer 'Galw pysgotwyr' yn adrodd hanes Iesu yn benthyg cwch Seimon ac Andreas er mwyn iddo bregethu i'r dyrfa o'r cwch. Wedi iddo orffen siarad â'r bobl gofynnodd i Seimon fynd â'r cwch allan i ran dwfn iawn o'r llyn er mwyn iddo gael dal pysgod. Er i Seimon ddadlau ei fod wedi bod yn yr union fan y noson gynt a heb ddal yr un pysgodyn, mynnodd Iesu ei fod yn taflu'r rhwyd dros ochr y cwch. Er mawr syndod i Seimon a'i ffrindiau llenwyd y rhwydi gan gannoedd o bysgod, digon

i lenwi dau gwch. Dywedodd Iesu ‘Paid â bod ofn; o hyn ymlaen byddi di’n dal pobl yn lle pysgod’.

Yna daeth Elliw i’r pulpud i’n harwain mewn gweddi oedd yn diolch i Dduw am ei ofal dros bawb yn ystod gwyliau’r haf ac i ddiolch am y tymor newydd cyffrous sydd o’n blaenau. Yn nesaf canwyd emyn 794 ‘Cristion bychan ydwyf’ i gyfeiliant egnïol a sionc band taro’r Ysgol Sul.

Yn dilyn hyn cafodd Beti Wyn air â’r plant a’r bobl ifanc. Fel rhan o’r thema pysgota, gofynnodd i’r plant restru’r hyn oedd yn ymddangos ar y sgrîn - gwialen bysgota, rhwyd, pysgodyn, cranc ayb. Gan gyfeirio nôl at y ffilm fer ‘Galw pysgotwyr’ trafododd ba mor bwysig oedd pysgota nôl yng nghyfnod Iesu a bod cymaint o’r disgyblion yn bysgotwyr a dyna pam mae’r thema ‘pysgod’ yn ganolog i ddysg a storïau’r Iesu.

Roedd gan ein Gweinidog ddwy wialen bysgota fach a gofynnodd i’r plant ddod allan yn eu tro i bysgota o fwced mawr. Roedd y plant wrth eu bodd yn tynnu’r pysgod bach cardfwrdd o’r bwced. Roedd ambell i bysgodyn â llythyren arno a rhai heb lythrennau. Ar ôl y bwrlwm a’r hwyl o bysgota gofynnodd i’r plant hynny oedd â physgod heb lythyren ddod allan i’r blaen, roedd pump ohonynt. Fe atgoffodd y gweinidog ni am stori porthi’r pum mil a’r wyrth bod tyrfa fawr o bobl wedi cael eu bwydo gyda dwy dorth a phum pysgodyn. Yna gofynnodd i’r rheiny oedd â llythrennau ar eu pysgod ddod i’r blaen. Roedd y llythrennau yn sillafu gair arbennig ac fe aeth y plant ati i osod eu llythrennau mewn trefn. Y gair oedd Disgyblion. Atgoffodd y Gweinidog ni fod gan y disgyblion waith pwysig iawn. Dywedodd Iesu wrthynt ‘Fe’ch gwnâf yn bysgotwyr pobl’ a’u dyletswydd oedd mynd i blith y bobl i rannu gair Duw. Yn yr un modd mae Iesu yn disgwyl i ni fod yn bysgotwyr hefyd, yn bysgotwyr pobl, ei ddilyn Ef a rhannu’r newyddion da gyda eraill. Daeth y gwasanaeth i ben drwy ganu emyn rhif 400 ‘Iesu yw’r Ior’ a chyhoeddwyd y fendith.



***DIOLCH*** i blant a phobl ifanc yr Eglwys am eu gwaith graenus, i Fand y Priordy am y gerddoriaeth egnïol ac i Beti-Wyn am rannu neges bwrpasol a phwysig.

## AGOR Y LLYFR YN
## YSGOL Y DDERWEN



♫ **CWIS Y SALMAU** ♫



**Pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau? Yn hytrach, pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau yn fersiwn beibl.net?!!!! Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!**

## Salm 150

### Molwch yr ARGLWYDD!

Haleliwia!
Molwch ---- yn ei deml.
Molwch e yn ei ------ gadarn.
Molwch e am wneud pethau mor ----.
Molwch e am ei fod mor wych.
Molwch e drwy chwythu'r corn ----.
Molwch e gyda'r nabl a'r -----.
Molwch e gyda drwm a -----.
Molwch e gyda llinynnau a ----.
Molwch e gyda --- symbalau.
Molwch e gyda symbalau'n atseinio.
Boed i bopeth sy'n ------foli'r ARGLWYDD.
-------!

**Atebion ar Dudalen 23**

## PEN-BLWYDD ARBENNIG



Llongyfarchiadau i un o'n haelodau, Norah Hughes, ar ddathlu'i phen-blwydd yn 100 oed ar 13 Medi 2023. Cyflwynwyd blodau iddi ar ran y Priordy gan ein Gweinidog. Ein dymuniadau gorau ni i gyd.

## Ymweliad ag Amgueddfa Sir Gâr

Bydd Y Gymdeithas yn ymweld ag Amgueddfa Sir Gâr yn Abergwili ar ddydd Mawrth 7 Tachwedd 2023 o dan arweiniad Peter Hughes Griffiths. Mae croeso cynnes i bawb a dowch erbyn 2 o'r gloch.





Yn gyntaf, byddwn yn eistedd mewn ystafell i wrando ar gyflwyniad gan Peter am ryw chwarter awr cyn cael y cyfle i fynd o gwmpas am hanner awr arall, ac yna yn ôl i'r un ystafell i eistedd eto i holi a thrafod yr hyn a welwyd.  O gwmpas tri o'r gloch fe awn ni i'r caffi sydd yn ymyl i gael 'Clonc a Phaned.' Mae lifft yn yr adeilad os am osgoi cerdded i fyny'r grisiau i'r llawr cyntaf.




Fe fydd Peter yn nodi pwysigrwydd cenedlaethol y safle mewn perthynas â William Salesbury a'r Esgob Richard Davies ac, fel mae'n digwydd, bydd cyfle i weld y campwaith 'Tobias and the Angel' sydd fel arfer ond i'w weld yn yr Oriel Genedlaethol yn Llundain. Cawn weld hefyd y Gadair a enillodd Gwallter Mechain yn eisteddfod enwog y Llwyn Iorwg yn 1819 pan glymodd Iolo Morgannwg ruban glas ar fraich y bardd a sefydlu'r Orsedd fel rhan o'r eisteddfod am y tro cyntaf.



Bydd llawer mwy i'w weld wrth gwrs ac fe fydd hi'n brynhawn arbennig iawn.

## GWEITHGARWCH YNG NGHANA

Llongyfarchiadau i Cana, un o eglwysi'n gofalaeth, ar gynnal Cymanfa Fodern mor llwyddiannus, nid yn unig i ddathlu deucanmlwyddiant sefydlu'r eglwys (na fu'n bosibl ei wneud yn gynharach oherwydd Covid) ond hefyd y dychwelyd i'r capel yn dilyn y gwaith o adnewyddu nenfwd yr adeilad.











Daeth rhai o aelodau'r Priordy hefyd i Gana i dreulio awr fach yn y Festri yng nghwmni rhai o drigolion Cartref Gofal Plas-y-dderwen a Dôl-y-felin. Cafwyd digon o ganu a chacennau!



# Ifanc@Priordy



**Diolchgarwch**
Dydd Sul 1 Hydref
Oedfa blant a phobl ifanc am 10
Rydym yn gofyn yn garedig
i chi ddod â rhoddion i'r banc bwyd.
Pawb i gwrdd yn y festri cyn y gwasanaeth
er mwyn cerdded i mewn i'r capel gyda'ch gilydd.

## Dathlu'r Nadolig yn Y Priordy

Gwasanaeth Nadolig
**BORE Sul, 10 Rhagfyr am 10**
**yng nghwmni plant yr Ysgol Sul**
y Parti Bechgyn a'r Parti Merched






Gwasanaeth Nadolig PIP
**Nos Sul, 10 Rhagfyr am 5**
Gwasanaeth dan olau cannwyll



Yr Ysgol Sul a PIP yn cynnal
Gwasanaeth yng Nghartref Gofal Erw Hir
Bore Sul, 15 Hydref.
Cyrraedd y Cartref erbyn 10.15
Person cyswllt: Angharad, mam Greta, Miriam a Noa

## Calendr Hydref!

Sul, 1 Hydref – Cwrdd Diolchgarwch
Sul, 8 Hydref – Ysgol Sul
Sul, 15 Hydref – Ymweld ag Erw Hir
Sul, 22 Hydref – Dim Ysgol Sul
Sul, 29 Hydref – Ysgol Sul



# CHWILOTAIR LLYTHYREN 'L'

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| S | S | L | I | U | C | A | I | A | S | E | T | F | O |
| U | A | O | N | S | I | T | S | E | A | E | I | I | O |
| C | D | T | I | D | A | O | D | S | B | A | C | I | E |
| I | U | U | Y | A | L | B | L | L | E | E | U | L | C |
| T | I | L | L | L | E | A | I | L | U | D | L | O | L |
| I | I | A | O | S | B | S | E | A | L | D | C | C | L |
| F | S | U | A | C | A | N | O | B | A | A | I | U | A |
| E | E | T | I | U | N | A | A | A | S | I | L | S | R |
| L | E | A | R | I | O | L | I | N | A | A | E | T | A |
| I | I | T | L | C | N | S | O | I | R | A | S | I | S |
| I | E | O | L | E | A | O | S | I | U | E | L | A | I |
| T | F | O | T | A | I | E | C | O | S | E | L | I | A |
| S | E | C | L | L | O | A | D | I | C | E | A | D | A |
| L | A | L | U | N | I | A | F | E | L | O | I | L | L |

LEBANON
LYDIA
LEFITICUS
LOCUSTIAID
LEA
LOADICEA
LOT
LEFAIN
LASARUS
LUC
LOIS
LABAN

Hwyl fawr am y tro
Beti-Wyn!

# Y DAITH GERDDED









## Sulwyn Thomas….



### Taith Gerdded Hirddydd Haf

### 15 Medi 2023

Wrth i 15 o gerddwyr ymgynnull ym Maes Parcio Heol y Prior y cwestiwn mawr oedd - a fyddem yn troi i'r dde am Dre Ioan efallai, neu i'r chwith am Abergwili?  Dim ond un oedd yn gwybod - ein harweinydd a'n Gweinidog, Beti-Wyn. A'n tywys i'r chwith y gwnaeth hi, ac yna, gyferbyn â'r "Ysgubor Fach" lawr â ni ar hyd llwybr cul heibio i'r hyn a fu'n erddi ("allotments") pan oeddem yn blant a chyrraedd y Llannerch (neu'r Esplanade i ni blant y pedwar degau.)



Gwyddom felly o droi i'r chwith taw heibio i'r hen hen ysgol Ramadeg, yr hen briordy a pharc Hinds, a cherdded wrth ymyl y ffordd osgoi nes cyrraedd Heol Abergwili y byddem.

Croesi'r hewl honno wedyn, heibio cefn ysbyty Glangwili, rhyfeddu at y datblygiadau yng ngorsaf newydd trên y Gwili, a gresynu bod parc hyfryd a fu unwaith yn rhan o'r ysbyty bellach yn anialwch.




Nawr te, ble oedd ein harweinydd am fynd â ni wedi i ni gyrraedd Heol Dolgwili?  Dim syndod o gwbl taw tuag

at Peniel yr aethom, oedi wrth y garreg "Dolgwili Farm" gan gofio'n annwyl am Dai a theulu Dolgwili

Ar hyd y llwybr cyhoeddus sy'n ffinio un ochr o'r fferm yr aethom wedyn tuag at y glwyd nid nepell o'r bont ar y ffordd am bentref Abergwili.

Wedi cyrraedd cyrion y pentref, dyma droi i mewn i fynwent y capel a chael ein hatgoffa unwaith eto gan ein Gweinidog mai Ebeneser yw mam eglwys y Priordy.  Sefyll am ennyd wrth fedd D Cadvan Jones - sefydlydd a gweinidog cyntaf Eglwys y Priordy.



Roedd ambell un am chwilio am feddau eraill cyn- aelodau ein capel ni yn y fynwent ond roedd hi'n dechrau tywyllu a bant â ni ar hyd Heol Abergwili a Thanerdy ac am y maes parcio.

Pedair milltir ddywedodd y gweinidog! Ar fy ffôn i roeddwn wedi cerdded 5.2 milltir. Beth yw milltir i gerddwyr i boeni amdano a ninnau wedi mwynhau hwyl a chwmnïaeth hyfryd ar noson o Hydref?

Clywais fwy nag un yn gofyn pryd fydd y daith nesa?  Cyn bo hir wedwn i gan ddiolch i Beti-Wyn am drefnu'r daith.



## PANED A SGWRS



**Bore Mercher - 10.30**
**Gwesty'r Llwyn Iorwg - 25 Hydref 2023**

**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**
***(Bydd rhaid i bob un brynu ei goffi ei hunan )***

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**



**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau, 23 Tachwedd 2023**
**Bryn Iwan**

**Y Gynhadledd am 10.30**
**Cyfarfod y Prynhawn am 1.30**
**Ceir Oedfa Gymun ac Anerchiad gan y Cadeirydd Newydd**
**Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor**



**Croeso i bawb**

**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 15 Tachwedd 2023 am 7**
**yn y Festri**

**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**

***Bydd y swyddogion yn aros ymlaen ar ddiwedd y cyfarfod i ddechrau paratoi ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2023***

**CWIS Y SALMAU**
**beibl.net**
**ATEBION**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Dduw | 6 | dawns |
| 2 | nefoedd | 7 | ffliwt |
| 3 | fawr | 8 | sŵn |
| 4 | hwrdd | 9 | anadlu |
| 5 | delyn | 10 | Halelwia |

**Gallwch hefyd droi at beibl.net**

**AR Y WE: www. priordy.org *(yn cynnwys Papur Priordy)***

**Beth am droi at**
**Daith Goleuo Sir Gâr?**



Nod y daith hon yn ne Sir Gaerfyrddin yw egluro sut y digwyddodd y cynnydd sydyn yn llythrennedd y Cymry yn ystod Cyfnod yr Ymoleuo yn Ewrop. Ganol y ddeunawfed ganrif dechreuodd yr athro a'r offeiriad, **Griffith Jones**, hyfforddi athrawon yn ei gartref yn Llanddowror er mwyn iddyn nhw dreulio dau neu dri mis mewn plwyfi gwahanol yn dysgu plant o deuluoedd gwledig tlawd sut i ddarllen. Lledodd cysyniad yr ysgolion cylchynol elusennol yn gyflym ac o fewn degawdau daeth Cymru yn un o'r cenhedloedd mwyaf llythrennog yn Ewrop.



Bu gan lawer o bobl eraill ran yn yr hanes rhyfeddol hwn, gan gynnwys y gymwynaswraig frwd **Madam Bevan** a **Peter Williams.** Sicrhaodd ei fersiwn fforddiadwy ef o'r Beibl bod deunydd darllen Cymraeg i'w gael yn y rhan fwyaf o gartrefi Cymru.





Cododd statws yr iaith Gymraeg yn sgil sefydlu'r ysgolion; dylanwadwyd ar litwrgi'r Eglwys; bu twf yn y diwydiant argraffu yng Nghymru; ac yn hollol anfwriadol grymuswyd y mudiad a ddaeth yn y pen draw yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru.




Crëwyd y daith gan Gymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin.

Am ragor o wybodaeth (yn y ddwy iaith) trowch at *The Carmarthenshire Enlightenment Tour* ar y we.

# PANED A SGWRS CYNTA'R TYMOR NEWYDD












## CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN

### Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau

### EGLWYS SAN SIÔR, LALIBELA, ETHIOPIA



**Yng ngogledd Ethiopia, mae tref fechan Lalibela yn adnabyddus am un ar ddeg o eglwysi canoloesol wedi'u cerfio o graig fonolithig.**

**Mae'r eglwysi'n dyddio'n ôl i'r 12 ganrif**

**Codwyd Eglwys San Siôr ar gais y Brenin Gebre Meskel Lalibela. Fe'i cyfrifir yn sant gan Eglwys Uniongred Tewahedo Ethiopia**

**Er ei bod yn hynafol, mae Eglwys San Siôr a gweddill yr adeiladau'n dal i groesawu pererinion hyd heddiw.**

**DOD I NABOD EIN HAELODAU**
**Papur Priordy'n sgwrsio â**
**HARRI EVANS**



**PP: Beth am y gwreiddiau, Harri?**
**HE:** *Wel, ces i 'ngeni ym Meidrim. Ro'n i'n un o chwech o blant – pedwar brawd a dwy ferch ac yn byw yr y pryd yn Fronyscawen, fferm fach ynghanol y wlad. Yn ddiweddarach cartre'r teulu oedd ffermydd bach Waun Saeson, Llansteffan a Waun y Groes, Llanybri.*

**PP: Sut oedd bywyd y dyddiau hynny?**
**HE**: *Doedd pethau ddim yn rhwydd i dat a mam. Doedd iechyd dat ddim yn dda. Ro'n i a'm mrawd Ben yn ceisio helpu i gadw pethau i fynd. Dw i'n cofio llifio coed ac yna'u gwerthu a cocsa hefyd yn Llansteffan gyda chert a phoni a gwerthu'r cocos am dair ceiniog y peint.*

**PP: Ro'ch chi'n deulu mawr.**
**HE:** *O'dd ond ergyd fawr i dat a mam yn arbennig oedd colli dwy ferch – un yn 21 oed a'r llall yn 16oed. Dim ond dau ohonon ni sydd ar ôl erbyn hyn, Ben a fi.*

**PP: Mae Ben Evans yn enw cyfarwydd iawn yn Sanclêr a'r cylch a Chaerfyrddin.**
**HE**: *Wel ydy. Dechreuodd fel trydanwr. Rodd e'n gweithio gyda Stodley yng Nghaerfyrddin ac yn ennill 10 swllt yr wythnos. Byddai'n teithio ar y bws i'r dre ac yn talu saith a chwech yr wythnos am docyn dwy ffordd. Do'dd dim llawer ar ôl felly. Dyma fe'n penderfynu tynnu'i oferôls a theithio fel plentyn! Ond pharodd hyn ddim yn hir. Ffindo nhw mas ei fod e'n gweithio a bu rhaid iddo dalu saith a chwech unwaith eto! Ond chwarae teg i Ben, aeth e o nerth i nerth a bu ganddo gwmni llwyddiannus yn Sanclêr, Hendy-gwyn a Chaerfyrddin*

**PP: Ond efallai mai Dan ron ni'n ei 'nabod orau yn y Priordy.**

**HE:** *Ie. Astudio a llyfrau oedd yn mynd â bryd Dan - tra oedd Ben a fi'n slafo! Ond gwnaeth gyfraniad pwysig ym myd addysg a bu'n ffyddlon a gweithgar iawn yn y capeli ble bu'n aelod.*



**PP: O sôn am gapeli, ble ro'ch chi fel teulu'n addoli?**
**HE:** *Ym Moreia, Llansteffan – teirgwaith ar y Sul a cherdded taith o ddwy filltir yn ôl ac ymlaen. Ro'dd cynulleidfa dda yno'r pryd hynny. Yn cofio darllen, gweddïo a chanu yn yr Ysgol Sul. Yn cofio hefyd nad oedd darllen darnau o'r Beibl yn dod yn rhwydd i bob plentyn bob tro a byddai ambell un yn 'jwmpo' dros y geiriau mawr! Dyddiau difyr.*



**PP: Beth am eich gwaith chi 'te?**
**HE:** *Wel, gadawes i'r ysgol yn 15 oed a bues i ar y fferm am gyfnod. Yn Waun y Groes ro'dd gorsaf betrol fach gyda dat a bues i'n helpu i gadw'r llyfrau ac ati. Bues i'n astudio yn y Central College yng Nghaerfyrddin ac ro'dd hynny'n hyfforddiant da i mi.*

**PP: A wedyn?**
**HE:** *Treuliais gyfnod yn gweithio fel gyrrwr o gwmpas y ffermydd gyda Thomas Evans (Abertawe), cwmni graddio wyau, yn Heol Las, Caerfyrddin. Ar y bysys y bues i wedi hynny- – fel tocynnwr i ddechrau ac yna pan o'n i'n ddeunaw oed fel gyrrwr hyd nes i mi ymddeol. Bues i'n gweithio i sawl cwmni – Western Welsh, National Bus Company a Crosville cyn treulio blynyddoedd hapus hefyd gyda Chwmni Ffoshelyg.*

**PP: Cwrddoch chi â pherson arbennig iawn ar fws un tro, on'd do?**
**HE:** *Wel, do, Maifis, a ddaeth yn wraig i mi, wrth deithio o Geinewydd i Bentrecwrt un dydd Sul. Buom yn byw yn hapus iawn, yn bennaf ym Mhentrecwrt, a chawsom ddau o blant, Nigel a Siân.*

**PP: Ro'ch chi'n addoli yn Eglwys Bangor Teifi.**

**HE:** *Yn wir. Bues i'n aelod yno am 60 o flynyddoedd a chael bod yn Warden y Bobl, Warden y Ficer a Thrysorydd. Gwnes i lawer o ffrindiau yno, yn cynnwys y Parchedig Ganon Haydn Rowlands. Roedden nhw'n ddyddiau da ond, yn anffodus, collais i Maifis rai blynyddoedd yn ôl.*



**PP: Roedd Maifis yn gyfnither i ŵr arbennig iawn.**



**HE:** *Oedd, i'r bardd a'r awdur llyfrau plant enwog T Llew Jones. Roedd tad Maifis a mam T Llew Jones yn frawd a chwaer.*

**PP: I berson mor llawn mynd â chi roedd ymddeol yn dipyn o newid, mae'n siŵr.**

**HE:** *Ddim mewn gwirionedd. Roedd 'da fi ddigon ar fy mhlât, rhwng gwaith gwirfoddol gyda'r Eglwys a gofalu am diroedd y meddyg lleol ym Mhentrecwrt, Dr David Jones, am bymtheng mlynedd – gŵr a fu'n dda iawn i mi.*

**PP: Wel bellach chi wedi ymgartrefu yng Nghaerfyrddin?**

**HE:** *Do a dw i'n ffodus bod y plant yn byw yn agos ata i yn y dre.*

**PP: Ac mae yna wyrion gennych hefyd?**

**HE:** *Oes yn wir – tri ohonyn nhw. Ac ar ben hynny rwy'n hen dat-cu hefyd. Maen nhw i gyd yn werth y byd!*

**PP: Chi'n aelod yn y Priordy erbyn hyn.**

**HE***:* *Ydw ac yn mwynhau. Bues i'n dod i'r oedfaon am ryw chwe mlynedd a phenderfynu dod yn aelod. Dw i'n cael croeso mawr gan Beti-Wyn a phawb arall. Mae nifer o ffrindiau da 'da fi hefyd – yn enwedig yn y sedd gefn ar yr ochr chwith wrth ddod i mewn i'r capel! Rwy'n teimlo'n ffodus iawn!*


**PP: Wel diolch yn fawr iawn i chi, Harri, am y sgwrs. Ryn ni'n falch ohonoch yn y Priordy. Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol.**

**DYMUNIADAU DA**

**Yn dilyn arholiadau allanol 2023 mae nifer o'n pobl ifainc yn dychwelyd i ddilyn cyrsiau yn yr ysgol ac eraill yn symud i golegau: Carwyn Axford, Elis Roderick a Steffan O'Leary i Brifysgol Caerdydd, Jac Thomas i Goleg Pen-y-bont ar Ogwr (Amaethyddiaeth) a Syfi Rolant i Goleg Sir Gâr (Campws y Graig).**

**Pob dymuniad da i'r cyfan ohonoch oddi wrth bawb ohonom yn y Priordy.**

**Tudalen Blaen**



**Pennill olaf emyn gan y diweddar Barchedig Tudor Davies (1923-2010), sef *Cofia'r newynog, nefol Dad* (Caneuon Ffydd 816) sydd ar y tudalen blaen y mis hwn. Cymhellwyd Tudor Davies i ysgrifennu'r emyn adeg Wythnos Cymorth Cristnogol 1971 a thyfodd yn un o'n hemynau cymdeithasol cyfoes mwyaf poblogaidd. Mae'n briodol dyfynnu'r pennill ar adeg pan ydym yn cynnal ein gwyliau diolchgarwch. Mae bara yn symbol o'r cynhaeaf a rhown ddiolch i Dduw amdano. Mae mor allweddol i'n cynnal. Fydden ni ddim yn gallu bodoli hebddo. Ond cofiwn yr un pryd - fel yr awgryma'r dyfyniad - mai nid ar fara yn unig y bydd byw dyn. Rhaid wrth rywbeth amgenach i fyw bywyd llawn. Rhaid diwallu anghenion ein henaid hefyd ac Efengyl Iesu sydd â'r grym a'r gallu i wneud hynny.**

**Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio**
***yn cyflwyno...***

# NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON



## Paentio Rheiliau'r Capel

Diolch i'r tadau am sicrhau 'Marathon' i ni heddiw! Cychwynnwyd ar y gwaith ddechrau Medi. Bwriedir gorffen Medi 2050!

## Cyngor Eglwysi Caernarfon

Mae'r trydydd Sul ym Medi ers sawl blwyddyn yn Sul Undebol. Gwahoddir yr holl eglwysi ond nid yw'r saint hyd yma'n gwrando ar yr Ysbryd Glân i bawb fod efo'i gilydd




## Edrych Ymlaen



Sul Diolchgarwch. Ar y trydydd Sul yn Hydref



# Y FANER HEDDWCH

**Y Cynghorydd Emlyn Schiavone, Dirprwy Faer ac un o'n haelodau, yn codi'r Faner Heddwch ar Ddiwrnod Heddwch, 21 Hydref 2023, y tu allan i Neuadd San Pedr. Yn y llun hefyd mae'n Gweinidog**



# HEDDWCH AR DDAEAR LAWR GAN DDECHRAU'N FY NGHALON I





## Bore Sul 24 Medi 2023

Priodol iawn oedd neilltuo oedfa'r bore i erfyn am heddwch a byd di-drais. A phwy well i wneud hyn ar ein rhan na'n pobl ifainc - ein dyfodol. Roedd yr oedfa hefyd yn digwydd yn fuan wedi i Faner Heddwch gael ei chodi yn ein tref gan y Cynghorydd Emlyn Schiavone ar 21 Medi 2023.

Yn ystod yr oedfa clywsom am hanes menywod Cymru gan mlynedd yn ôl yn ymgyrchu dros heddwch byd-eang wedi erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Sicrhawyd bod menywod America'n clywed eu lleisiau drwy baratoi deiseb wedi'i llofnodi gan bron i 400,000 ohonynt a'i chludo i'r Unol Daleithiau. Eleni, dychwelodd y ddeiseb yn ôl i Gymru. Yr hanes rhyfeddol hwn oedd testun ein Sul Sbesial eleni. Mae disgwyl y bydd cyfrol yn crisialu'r cyfan yn cael ei chyhoeddi cyn bo hir.



Soniwyd hefyd am y gwahanol symbolau sy'n cynrychioli heddwch. Maen nhw'n cynnwys dau yn ysgwyd dwylo a ddyluniwyd ym 1958 yn rhan o'r ymgyrch i wahardd arfau niwclear; aderyn origami sy'n tarddu o Siapan a miloedd ohonynt yn cael eu gosod ar gofeb heddwch Hiroshima yn flynyddol, ac yna'r golomen sydd ar ein baner heddwch ni yng Nghaerfyrddin.





Wrth siarad â'r plant, soniodd ein Gweinidog am ei hymweliad â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis ac fel y mae'r llechen Gymreig i'w gweld hyd yn oed heddiw ym mhedwar ban byd. Mae pob math o bethau da yng Nghymru sy'n lledu ar draws ein byd ac mae gennym yn ogystal neges bwysig i'w trosglwyddo i eraill am heddwch a Iesu Grist.



Yn ei myfyrdod, cydiodd ein Gweinidog yn yr adnodau yn Efengyl Luc sy’n cyfeirio at gân yr angylion am dangnefedd adeg geni Iesu. Esboniodd fel y mae angen i ni adeiladu perthynas iawn rhwng Duw a dyn yn sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau gwir heddwch a thangnefedd yn ein byd.

Canwyd emynau gwbl addas yn ystod yr oedfa - Heddwch ar ddaear lawr (867), Dyro dy gariad (871), O doed dy deyrnas (242), Efengyl Tangnefedd (844) ac Agor di ein llygaid (841). Darllenwyd adnodau o Efengyl Luc, a chafwyd gweddïau myfyrgar. Pwy allai beidio â dweud ‘Amen’ i’r geiriau hyn:

Gweddïwn am heddwch yn y byd
ac am gymod rhwng cenhedloedd:
am heddwch yn seiliedig ar gyfiawnder,
am barch at hawliau dynol,
am ymrwymiad i ymwrthod â gormes a rhyfel,
a chyfle i bawb fyw mewn diogelwch.



Diolch i Heledd a Syfi a hefyd Ethan a Iestyn, Marged, Osian a Gwenan am wneud eu rhannau mor raenus, Eira Philips wrth yr organ, Elinor Wyn am gyhoeddi a’r casglyddion Brynmor, Aneurin, Meredydd a Lili ac i’n Gweinidog am ei chyfraniad ac am baratoi a threfnu’r cyfan.

**CORNEL**

**CODI GWÊN!**

Roedd gweinidog yn mynd i hwyl wrth bregethu… cymaint o hwyl fel ei fod wedi pregethu am 45 munud ac roedd yn dal i fynd. A’r bregeth wedi cydio ynddo gofynnodd gyda chryndod yn ei lais ‘Beth arall alla i ddweud? Beth arall sydd i’w ddweud?’ Daeth llais o gefn y capel, ‘Beth am Amen!’

## SUL HEDDWCH

# Y rhai a gymerodd ran



# DIOLCHGARWCH YR OFALAETH - 2023

| Y PRIORDY | |
|---|---|
| **Bore Sul, 1 Hydref am 10** | Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc<br>gyda Beti-Wyn<br>Derbynnir rhoddion i'r Banc Bwyd |
| **Nos Sul 1 Hydref am 5** | Cwrdd Diolchgarwch a Chymun<br>*gyda'r*<br>Parchedig Tecwyn Ifan a'n Gweinidog<br>Swper i ddilyn<br>Derbynnir rhoddion i'r Banc Bwyd |
| | |
| **CANA** | |
| Dydd Sul, 8 Hydref am 3 | Cwrdd Diolchgarwch y Plant gyda'r Gweinidog<br>Derbynnir rhoddion i'r Banc Bwyd |
| Nos Iau 12 Hydref am 7 | Oedfa Bregethu<br>Annalyn Davies<br>Swper i ddilyn |
| | |
| **BANCYFELIN** | |
| Dydd Sul, 8 Hydref am 1.30 | Cwrdd Diolchgarwch y Plant gyda'r Gweinidog<br>Derbynnir rhoddion i'r Banc Bwyd |
| Nos Iau, 19 Hydref am 7 | Oedfa Bregethu<br>Y Parchedig Eirian Wyn Lewis<br>Swper i ddilyn |

***HEFYD***

***CWRDD DIOLCHGARWCH***
***CLWB FFERMWYR IFAINC***
***DYFFRYN TYWI***
***Cadeirydd – Heledd Jones***
***Nos Fercher 25 Hydref 2023 – 7 o'r gloch***
***Y Priordy***

# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Hydref | | Tachwedd | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Sulwyn Thomas | Philip Jones | Jayne Woods | Huw Jones |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hydref | 1 | Beti-Wyn James | Tachwedd | 5 | |
| | 8 | | | 12 | Enid Wyn Jones |
| | 15 | Carys Edwards | | 19 | |
| | 22 | | | 26 | Dienw |
| | 29 | Gloria Evans | | | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hydref | 1 | Hwyr | Llinos Jones ac Elen Marks |
| Tachwedd | 5 | Bore | Mwynwen Jones a Thelma Evans |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hydref | 1 | Y Plant | Tachwedd | 5 | Y Plant |
| | 8 | Angharad Wyn | | 12 | Eirlys Davies |
| | 15 | Lleucu Edwards | | 19 | Alwen Owen |
| | 22 | Catrin Mair Jones | | 26 | Sulwyn Thomas |
| | 29 | Yr Aelodau | | | |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hydref | Jayne Woods | Tachwedd | Adrian Evans |

***EIN*** cofion cynnes at bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd.  Meddyliwn adanoch i gyd.

Llongyfarchiadau i Myfanwy Jones ar ei phenodi’n Gyfarwyddwr Mentrau Iaith Cymru. Datblygu strategaeth genedlaethol i’r Mentrau Iaith ar gyfer y blynyddoedd nesaf, cefnogi a chynrychioli’r Mentrau a hyrwyddo eu gwaith fydd prif orchwylion gwaith Myfanwy**.** Ein dymuniadau da iddi yn y swydd.

Pob dymuniad da hefyd i Marged a fydd yn cystadlu dros Dîm Gymnasteg Gorllewin Cymru yn Florida ym mis Ionawr. Yn edrych ymlaen eisoes at glywed yr hanes. Hwyl i ti ar yr ymarfer!

Bu Llinos Roberts ar Newyddion **S4C** mewn eitem a fu’n sôn am yr her sy’n wynebu’r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru.




***FE*** gofiwch i ni longyfarch Jac Tomos a Tomos Morgans, sy’n aelodau o Gôr Aelwyd Hafodwenog a ddewiswyd i fynd i Gwpan y Byd yn Ffrainc yn yr Hydref ar ran yr Urdd i ganu! Wel, mae’r ddau wedi cyflawni’r gamp erbyn hyn! Llun da ohonynt hefyd! Mae’n amlwg i’r côr ysbrydoli Cymru yn Lyon!!!

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Tachwedd i’n Gweinidog neu Alun Charles**


## CYDYMDEIMLAD

Estynnnwn ein cydymdeimlad â Dewi a Sioned Snelson a’r plant, Caleb, Gwilym ac Osian, ar golli mam Dewi a nain y plant, sef Jois Snelson ar 7 Medi 2023 yn Ninbych. Meddyliwn am ei phriod, Richard, a’r teulu cyfan yn eu hiraeth a’u galar.

Cydymdeimlwn hefyd â Delyth Davies a’r teulu ar golli brawd yng nghyfraith Delyth, sef Wyn Morris, Llandysilio ac aelod yn Eglwys Pisgah ar 21 Medi 2023. Meddyliwn am y plant, Gwyneth a Melissa, a’r holl gydnabod yn eu profedigaeth a’u hiraeth.

**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn a Betsan James am y lluniau’r mis hwn.



***YMARFER CÔR!***

Bydd ymarfer cyntaf Parti Bechgyn Y Priordy yn dilyn y gwasanaeth fore Sul 22 Hydref.  Hyn ar gyfer Y Plygain blynyddol ar 3 Rhagfyr a'r Gwasanaeth Nadolig. Croeso cynnes ichi ymuno.





***YN DYMUNO CYFAMODI?***

**DENNIS JONES**
**YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**

**Croeso i chi gysylltu ag e!**

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?**
**Trowch at:  cyfundeb.com**

# SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | 1 | *Bore* *Hwyr* | Cwrdd Diolchgarwch y Plant gyda'n Gweinidog<br>Oedfa Gymun a Swper Diolchgarwch gyda'n Gweinidog a'r Parchedig Tecwyn Ifan | **C** |
| | 8 | *Bore* | Ein Gweinidog | |
| | 15 | *Bore* | Ein Gweinidog | |
| | 22 | *Bore* | Ein Gweinidog | |
| | 29 | *Bore* | Oedfa gyda'n Haelodau dan ofal Elinor W Reynolds | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd** | 5 | *Bore* | Oedfa Gymun gyda'n Gweinidog<br>Cynhelir Cwrdd Eglwys | **C** |
| | 12 | *Bore* | Ein Gweinidog | |
| | 19 | *Bore* | Ein Gweinidog | |
| | 26 | *Bore* | Y Parchedig Judith Morris | |

**CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC**

**✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant**
**OD – Oedfa Deulu J – Joio gyda Iesu**

| Hydref | | | | | Tachwedd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 8 | 15 | 22 | 29 | 5 | 12 | 19 | 26 |
| CP | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | J | ✓ | ✓ | ✓ |

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**

**CWRDD EGLWYS**
**5 TACHWEDD 2023 - WEDI'R OEDFA**
**Cyfle i drafod cynllun newydd posibl ar gyfer dyfodol yr ofalaeth**

**JOIO GYDA IESU**
**dan nawdd**
**Menter Ieuenctid Cristnogol (MIC) Sir Gâr**
**CAPEL PENIEL**
**5 TACHWEDD 2023 – 2pm**
**Croeso cynnes i bawb**

MENTER IEUENCTID CRISTNOGOL
SIR GÂR